

Carl Sargeant AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Cabinet Secretary for Communities and Children



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: OAQ(5)0109(CC)(W)

28 Mawrth 2017

Annwyl Suzy Davies AC

Yn ystod y Cwestiynau Llafar ar 8 Mawrth, fe wnaethoch ofyn am y partneriaid sydd ynghlwm â cheisiadau i'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol. Gan nad oedd gennyf yr wybodaeth wrth law, cytunais y byddwn yn rhoi ateb ysgrifenedig i chi.

Rydych yn iawn i ddweud y gall prosiectau gael partneriaid o'r sector cyhoeddus, y sector preifat neu'r trydydd sector. Fodd bynnag, nid yw'n wir bod y rhan fwyaf o geisiadau i'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol yn cael eu gweinyddu gan awdurdodau lleol. Mewn gwirionedd, rhaid i brosiectau gael eu harwain gan y gymuned; mae'n ofynnol i ymgeiswyr enwi o leiaf un partner strategol, ac yn aml iawn, yr awdurdod lleol yw'r dewis mwyaf amlwg. Awdurdodau lleol sydd biau llawer o'r cyfleusterau sy'n derbyn cymorth, ac maent yn cael eu gosod ar brydles i'r grwpiau cymunedol.

O'r 47 o brosiectau sydd wedi cael cymorth gan y rhaglen hyd yma, mae gan y rhan fwyaf ohonynt gysylltiadau â phartneriaid yn y sector cyhoeddus neu'r trydydd sector. Dim ond ychydig o brosiectau sydd â phartneriaid yn y sector preifat, er enghraifft Clwb Gymnasteg Abertawe. Cafodd y Clwb arian cyfatebol oddi wrth ei landlord yn y sector preifat a gytunodd i ariannu ei doiledau newydd. Mae Canolfan Tabor ym Mrynmawr yn gweithio gyda Fforwm Busnes Brynmawr i greu ei chyfleusterau cynadledda.

Yn gywir

Carl Sargeant AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Cabinet Secretary for Communities and Children

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Carl.Sargeant@llyw.cymru
Correspondence.Carl.Sargeant@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.


We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Carl Sargeant AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Cabinet Secretary for Communities and Children



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: OAQ(5)0109(CC)(W)

 March 2017

Dear Suzy Davies AM

During Oral Questions on 8 March you asked about the partners involved in Community Facilities Programme applications. As I did not have the information to hand, I agreed that I would respond in writing.

You are correct in saying that projects can have partners from the public, private or the third sectors. However, it is not the case that most Community Facilities Programme applications are administered by local authorities. In fact projects must be community led; applicants are required to name at least one strategic partner and the local authority is often the most obvious. Many of the facilities supported are local authority owned and leased to the community groups.

Of the 47 projects the programme has supported to date most have links with public sector or third sector partners. There are only a few projects with private sector partners such as Swansea Gymnastics Club which had match funding from its private sector landlord who agreed to fund its new toilet facilities. The Tabor Centre in Brynmawr is working with the Brynmawr Business Forum to create its conference facilities.

Yours sincerely

Carl Sargeant AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Cabinet Secretary for Communities and Children

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Carl.Sargeant@llyw.cymru
Correspondence.Carl.Sargeant@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.